



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Wynne Crest**

**Wynne Crest  
23-25  
Cadwgan Road  
Bae Colwyn  
LL29 9RE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Adroddiad terfynol heb ei  
gyhoeddi**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

**20 Hydref 2020**



Adroddiad terfynol heb ei  
gyhoeddi

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Cartref Gofal Wynne Crest

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Oedolion Heb Ofal Nyrsio
Darparwr Cofrestredig	Wynne Crest Limited
Lleoedd cofrestredig	21
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">25 Medi 2019</a>
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Yn Gweithio Tuag Ato

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ac yn gyfforddus. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn awyddus i helpu'r bobl yn eu hamser eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau yn y cartref. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn gweithredu mewn modd ymarferol. Mae'r darparwr yn cadw mewn cysylltiad agos â'r cartref ac yn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae wedi buddsoddi mewn gwelliannau i'r amgylchedd ac yn parhau i wneud hynny.

gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gymryd rheolaeth dros eu bywyd eu hunain o ddydd i ddydd. Maent yn cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu harferion dyddiol a'u hanghenion gofal. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol a pharchus â'r staff gofal. Gwelsom fod y staff gofal yn amyneddgar ac yn garedig a'u bod yn galluogi'r bobl i wneud dewisiadau. Mae'r darparwyr wedi ystyried anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac wedi cymryd camau i wella'r gwasanaeth a ddarperir a'r amgylchedd.

Caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu; mae'r staff gofal yn monitro anghenion gofal ac yn cymryd camau priodol pan fo angen. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn sylwgar. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth gadarnhaol a pharhaus o weithgareddau llawn hwyl a dewisiadau bwyd. Mae'r rheolwyr yn effeithiol o ran cysylltu â'r gweithwyr iechyd proffesiynol priodol. Mae'r amgylchedd yn olau, yn gartrefol ac yn lân, gyda sawl ystafell gymunedol i'r bobl dreulio eu hamser.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn nodi, yn cofnodi ac yn adolygu risgiau i'r unigolion. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn gwybod pa gamau i'w cymryd os byddant yn gweld bod rhywun yn wynebu risg, a sut i roi gwybod am hynny. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol er mwyn i'r staff gofal eu dilyn yn yr un ffordd. Caiff yr amgylchedd ei gynllunio mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gartrefol, yn lân ac yn olau. Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog gan y staff gofal i dreulio amser yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud yn annibynnol, neu gyda phreswylwyr eraill. Mae'r rheolwyr wedi gwneud nifer o welliannau i'r gwasanaeth ac mae ganddynt gynlluniau pellach i wella pob rhan o'r cartref. Mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu diweddarau ag addurniadau golau a chelfi newydd er mwyn hybu llesiant y bobl a sicrhau eu bod yn gysurus.


## Gofal a Chymorth

Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolion ac yn gallu cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaethom edrych ar dri chynllun personol a oedd yn cynnwys manylion am anghenion gofal yr unigolyn. Mae'r cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn tynnu sylw at ddewisiadau unigol y bobl, eu harferion dyddiol a'u hanghenion gofal. Dywedodd y bobl, eu teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol wrthym eu bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio ac adolygu anghenion gofal. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwaith o adolygu ansawdd y cofnodion gofal.

Mae'r staff gofal yn effeithiol wrth helpu'r bobl i ddewis sut i dreulio eu hamser a mynegi eu barn; gwelsom hyn drwy gydol yr ymweliad ac roedd y cofnodion gofal yn dangos bod y bobl yn cael dewis. Gwelsom y staff gofal yn diweddarau cofnodion tra eu bod gyda'r bobl. Gwelsom fod y fwydlen yn ddwyieithog ac ar gael yn yr ystafell fwyta er mwyn i'r bobl ddewis ohoni. Roedd y fwydlen yn glir, yn ddwyieithog ac yn cynnig amrywiaeth o ddewis. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i ddewis eu prydau bwyd a ble maent yn bwyta. Mae'r staff gofal yn ofalgar, yn amyneddgar ac wrth law i roi cymorth, yn helpu pan fo angen, ac yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl.

Mae'r cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn bersonol i anghenion yr unigolyn. Gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol, neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Roedd asesiadau risg unigol yn ategu'r cofnodion gofal, a gwelsom fod y rhain yn gyfredol, yn fanwl ac yn gywir o ran anghenion yr unigolyn.


Ymdrinnir â meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r cofnodion meddyginiaeth yn gywir a chânt eu hadolygu a'u monitro. Caiff gwybodaeth am roi meddyginiaeth i unigolion ei chofnodi yn y cofnodion dyddiol. Caiff y staff gofal eu mentora a'u cefnogi gan y rheolwyr i gyflawni cymwyseddau mewn perthynas â meddyginiaeth. Gwelsom fod cyflenwadau, cofnodion a chyfleusterau storio meddyginiaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau meddyginiaeth cyfredol i ategu'r broses hon.



## Yr Amgylchedd

Mae rheolwr y cartref wedi gwneud nifer o welliannau cadarnhaol i'r amgylchedd. Dywedodd dau berson wrthym eu bod yn hapus iawn â'u hamgylchedd. Mae cymhorthion gweledol, arwyddion â lluniau ac addasiadau yn helpu'r bobl i fod yn annibynnol yn y cartref drwy ysgogi cof y bobl. Mae'r gwelliannau a argymhellwyd ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu gwneud. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y rheolwr a'r perchennog yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth er mwyn cynnal llesiant y preswylwyr a sicrhau eu bod yn gysurus. Cymerir camau i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw a gwella yn mynd rhagddo'n barhaus ac yn cael ei fonitro.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi. Mae mynedfa'r cartref yn ddiogel a gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Mae canllawiau wedi'u gosod o amgylch y cartref ac mae gan y bobl gymhorthion cerdded unigol lle bo angen. Gwelsom fod y staff wrth law ac yn helpu'r bobl i symud rhwng ardaloedd yn y cartref. Mae gan bob preswlydd Gynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) a gaiff ei storio mewn man hygyrch fel y gellir cael gafael arno'n hawdd mewn argyfwng. Mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff cyfarpar trydanol, goleuadau a chyfarpar diogelwch tân eu harchwilio.



## Arwain a Rheoli

Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ddiweddar. Mae'r ddogfen hon wedi'i hafon i Arolygiaeth Gofal Cymru i'w adolygu. Mae angen cyflwyno'r ddogfen hon a sicrhau ei bod yn drefnus ac yn hawdd ei darllen. Mae'r wybodaeth a gofnodwyd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae canllaw ar y gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd hefyd, y mae copi ohono ar gael wrth fynedfa'r gwasanaeth.

Cynhelir gwiriadau manwl ar y staff gofal, a chânt eu sefydlu a'u hyfforddi i gefnogi'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae ffeiliau'r staff gofal a'r tystysgrifau yn dangos eu bod yn meddu ar brofiad a hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol e.e. gofal dementia a gofal lliniarol. Mae ffeiliau'r staff hefyd yn dangos tystiolaeth bod y rheolwyr yn cefnogi ac yn monitro'r gofal a ddarperir yn effeithiol. Mae'r rota staff yn dangos lefelau digonol o staff. Gwnaethom siarad â phedwar aelod o'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus iawn yn eu gwaith. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym *"Dyma'r swydd orau i mi ei chael erioed, dwi wrth fy modd"*. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod lefelau digonol o staff ar gael bob amser.

Mae darparwr y gwasanaeth yn ymweld â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn hapus ag ansawdd y gofal y maent yn ei gael. Gwelsom wybodaeth yr oedd y rheolwr wedi ei hanfon atynt er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ansawdd y gofal. Mae'r cofnodion yn dangos ei fod yn ymweld â'r cartref bob mis lle y bo'n bosibl ac yn ffonio pan fydd cyfyngiadau COVID-19 ar waith. Ymwelodd â'r cartref y diwrnod ar ôl yr arolygiad. Mae ei adroddiad yn dangos ei fod yn ystyried y wybodaeth a roddir gan y rheolwr er mwyn goruchwyllo datblygiadau a chynnydd. Byddai'n fuddiol i'r bobl pe bai'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion penodol fel y gellid monitro'r gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth yn gliriach.

Mae'r darparwr yn gweithio i sefydlu system sicrhau ansawdd gadarn. Mae sesiynau goruchwyllo rheolaidd ar gyfer y staff gofal a'r rheolwyr, cyfarfodydd staff a gwiriadau ansawdd, yn bwydo i mewn i'r gwaith o oruchwyllo ansawdd y gwasanaeth. Mae'r bobl a'r staff gofal yn hyderus i fynegi eu barn ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol

Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio â 'Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017' mewn perthynas â Rheoliad 66: Goruchwyllo'r gwaith o reoli'r gwasanaeth.

Wedi'i gyflawni

Lle na fydd darparwyr yn llwyddo i wella a gweithredu, gallwn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad (diffyg cydymffurfio) gweithredu â blaenoriaeth.

## Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith

Dim

# Adroddiad terfynol heb ei

## Meysydd y mae angen eu gwella

Dim

# gynnoeddi

Dyddiad Cyhoeddi 12/01/2021